

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwybodaeth am y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad sy'n cael ei asesu

Beth sy'n cael ei asesu?	<input type="checkbox"/>	Swyddogaeth
	<input checked="" type="checkbox"/>	Polisi
	<input type="checkbox"/>	Prosiect
	<input type="checkbox"/>	Penderfyniad
Teitl y swyddogaeth, polisi, prosiect neu benderfyniad	Polisi Caffael (diwygiwyd)	
Beth yw nod y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	Sicrhau bod OGCC bob amser yn ymgymryd â phroses gystadleuol sy'n ceisio darparu'r cyfle gorau i gaffael nwyddau neu wasanaethau gyda gwerth am arian	
Ar bwy mae'r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn effeithio?	Cyflenwyr Staff a defnyddwyr gwasanaeth (anuniongyrchol)	
Gyda phwy y dylid ymgynghori ynghylch y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	Bydd y polisi diwygiedig yn cael ei adolygu gan y Tîm Rheoli	
Pwy sy'n cynnal yr asesiad effaith hwn?	Andrew Jenkins Ania Rolewska	
Dyddiad: 30/08/2022		Fersiwn: 1.0

Sgrinio cychwynnol

Cwestiwn	Y	N	Os yw'r ateb yn 'YDY', eglurwch pam yn gryno
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n swyddogaethau neu feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny y mae'r AEG wedi nodi effeithiau ar gydraddoldeb ar eu cyfer?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae caffael yn faes o weithrediadau sy'n dod o dan ddyletswyddau penodol yng Nghymru. Cydnabyddir y gall y broses gaffael roi rhai grwpiau dan anfantais a chynnig cyfleoedd i hybu cydraddoldeb.
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac oes – nid oes gennym amcan penodol o hyrwyddo cydraddoldeb drwy gaffael.
A oes risg y gallai'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn roi	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg y gallai ein proses gaffael fod yn llai hygyrch i bobl o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys cefndiroedd economaidd-gymdeithasol,

unrhyw grŵp o bobl dan anfantais?		pobl sydd eisiau cyfathrebu yn Gymraeg, a phobl ag anghenion mynediad ychwanegol. Mae risg hefyd y byddwn, wrth asesu cynigion, yn ystyried rhai cynigion yn llai ffafriol nag eraill oherwydd rhagfarn ymwybodol neu anymwybodol. Rhaid i'r polisi sicrhau bod y risg honno'n cael ei lleihau i'r eithaf.
-----------------------------------	--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi wedi ateb 'ydy/oes' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, ewch ymlaen i'r asesiad effaith llawn.

Asesiad o Effaith

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
Ystyriaethau trawsbynciol	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae risg y bydd ein proses gaffael yn rhagfarnllyd.</p> <p>Mae'r polisi fel y mae'n cael ei lunio ar hyn o bryd yn lliniaru'r risg honno drwy ddatgan yn glir y dylai ein holl ddulliau caffael fod yn deg, yn agored ac yn dryloyw.</p>	Ni nodwyd unrhyw gamau pellach i lliniaru'r risg hon.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae risg y byddwn ni, drwy ein proses gaffael, yn cefnogi cyflenwyr sy'n mabwysiadu arferion sy'n groes i'n dyletswyddau a'n hymrwymyiadau cydraddoldeb.</p> <p>Mae'r polisi fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd yn lliniaru'r risg honno drwy gynnwys datganiad ar ein dyletswyddau yng nghyswllt cydraddoldeb yn egwyddorion craidd y polisi ac yn y templed tendro. Mae'r polisi hefyd yn datgan bod yn rhaid i bob cyflenwr fod yn ymwybodol o ddyletswyddau cydraddoldeb OGCC a chefnogi OGCC i gyflawni'r dyletswyddau hynny.</p>	Fel yr uchod.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae risg na fydd ein proses gaffael yr un mor hygyrch i bob grŵp.</p> <p>Mae holl gyfleoedd caffael Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru, un llwyfan a</p>	Fel yr uchod.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
				lleoliad ar gyfer holl weithgarwch caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn lleihau'r risg nad yw rhai cyflenwyr yn ymwybodol o gyfleoedd caffael OGCC. Trafodir mwy am risgiau a chyfleoedd mwy penodol o ran mynediad isod.				
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Mae ein proses gaffael yn gyfle i hybu a hyrwyddo cydraddoldeb, drwy annog cyflenwyr i ddatblygu neu gryfhau eu polisiau a'u gweithdrefnau cydraddoldeb.</p> <p>Er mwyn gwireddu'r budd posib hwnnw, mae'r polisi fel y caiff ei lunio ar hyn o bryd yn nodi camau ychwanegol i gryfhau'r sylw i ystyriaethau cydraddoldeb drwy gydol y broses. Mae'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gofyniad ar ddarpar gyflenwyr mewn caffaeliadau dros £25k i ddangos bod ganddynt bolisiau cydraddoldeb boddhaol yng nghyswllt y gwasanaethau sydd i'w darparu. • proses syml ar gyfer asesu perthnasedd caffael OGCC i gydraddoldeb. Os bydd y broses hon yn nodi effeithiau perthnasol, gall arwain at osod gofynion ychwanegol i gyflenwyr. 	Ni nodwyd unrhyw gamau pellach i wella'r effaith gadarnhaol hon.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
Oedran	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid oes tystiolaeth bod ein proses gaffael yn llai hygyrch i unrhyw gyflenwr oherwydd oedran. Nid ydym wedi nodi risg benodol y gallai hynny fod yn wir, y tu hwnt i ddiffyg ymwybyddiaeth o'n cyfleoedd caffael.	Gallwn ddefnyddio ein cysylltiadau presennol â sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn (e.e. Age Cymru; Age Connect) i rannu unrhyw newyddion am ein cyfleoedd caffael.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Nid oes tystiolaeth bod ein proses gaffael yn llai hygyrch i unrhyw gyflenwr oherwydd anabledd.</p> <p>Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r risg y gallai cyflenwyr sydd ag anghenion mynediad ychwanegol sy'n deillio o anabledd weld neu fod yn bryderus ynghylch rhwystrau o'r fath ac efallai y bydd angen addasiadau rhesymol arnynt (er enghraifft, gwybodaeth mewn fformat EasyRead neu brint bras).</p> <p>Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru'n rhannol gan y ffaith bod ein holl gyfleoedd caffael yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, sy'n golygu bod modd cael gaffael arnynt drwy ddefnyddio swyddogaethau hygyrchedd fel print bras a BrowseAloud. Fodd bynnag, nid yw'r nodweddion hyn ar gael ar GwerthwchiGymru. O ystyried hyn, efallai na fydd cyflenwyr sydd ag anghenion mynediad ychwanegol oherwydd anabledd mor ymwybodol â grwpiau eraill o'n cyfleoedd caffael.</p>	<p>Nid oes llawer y gellir ei wneud i wella hygyrchedd y broses gaffael ymhellach. Mae fformat GwerthwchiGymru yn cyfyngu ar y cyfleoedd i hysbysebu mewn fformatau gwahanol. Ar ben hynny, efallai na fydd bob amser yn bosib darparu ar gyfer ceisiadau am fformatau eraill, mwy hygyrch o fewn yr amserlen arferol ar gyfer ymatebion i wahoddiadau i dendro (3 wythnos).</p> <p>Er hynny, gellir lliniaru'r effaith negyddol bosib drwy ychwanegu'r nodyn canlynol yn y templed tendr 'Rhowch wybod i ni os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch i gymryd rhan yn ein proses gaffael. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddiwallu eich anghenion'.</p> <p>Gallwn ddefnyddio ein cysylltiadau presennol â sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl anabl (e.e. Anabledd Cymru; Anabledd Dysgu Cymru; Autistic UK) i</p>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
					rannu unrhyw newyddion am ein cyfleoedd caffael.			
Rhywedd (rhyw)	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid oes tystiolaeth bod ein proses gaffael yn llai hygyrch i unrhyw gyflenwr oherwydd rhywedd. Nid ydym wedi nodi risg benodol y gallai hynny fod yn wir, y tu hwnt i ddiffyg ymwybyddiaeth o'n cyfleoedd caffael.	Gallwn ddefnyddio ein cysylltiadau presennol gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol (e.e. Chwarae Teg) i rannu unrhyw newyddion am ein cyfleoedd caffael.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ailbennu rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel yr uchod		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Priodas a phartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel yr uchod		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Beichiogrwydd a mamolaeth	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel yr uchod		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hil	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel yr uchod	Gallwn ddefnyddio ein cysylltiadau presennol gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol (e.e. EYST) i rannu unrhyw newyddion am ein cyfleoedd caffael.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Crefydd neu gred	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel yr uchod		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfeiriadedd rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel yr uchod		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid oes tystiolaeth bod ein proses gaffael yn llai hygyrch i unrhyw gyflenwr oherwydd eu defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae risg y gallai'r darpar gyflenwyr boeni y gallai cael mynediad at y broses yn Gymraeg eu rhoi dan anfantais.		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
				<p>I liniaru'r risg honno, mae'r polisi fel y caiff ei lunio ar hyn o bryd yn cynnwys datganiad clir am ddyletswyddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan safonau'r Gymraeg yn egwyddorion craidd y polisi ac yn y templed tendro.</p> <p>Mae'r polisi'n nodi'n glir y bydd gwahoddiadau i dendro'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a bod OGCC yn croesawu tendrau yn Gymraeg.</p>				
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Mae'r polisi'n datgan, yn ogystal â'i berthnasedd i gydraddoldeb, y dylid asesu pob dull caffael o ran ei berthnasedd i'r Gymraeg – gyda gofynion ychwanegol yn cael eu gosod os yw hynny'n berthnasol.</p>				
<p>Nodweddion economaidd-gymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> natur wledig incwm isel/dim incwm dyletswyddau gofalu 	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae risg y bydd ein proses gaffael yn llai hygyrch i gyflenwyr lleol bach. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad o'n gweithgareddau caffael yn dangos ein bod yn defnyddio cyflenwyr o'r fath yn gyffredin, ond yn bennaf ar gyfer prosesau caffael o werth is.</p> <p>Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r polisi'n datgan y bydd OGCC yn annog cyflenwyr lleol llai i gymryd rhan. Mae ein swyddi yn GwerthwchiGymru yn gwahodd ceisiadau tendro o bob cwr o Gymru, ac eithrio prosesau caffael sy'n 	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
				<p>benodol i'r ardal leol (e.e. contract glanhau)</p> <p>Mae natur a chwmpas cyfyngedig caffael OGCC dros £25,000 yn ei gwneud yn anodd canfod tueddiadau rhanbarthol manylach a allai arwain at gyflwyno newidiadau mwy penodol i'r polisi ar hyn o bryd.</p>				

Cofnodwch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i asesu effaith:

[Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru](#)

[Caffael: canllawiau budd cymunedol](#) (Llywodraeth Cymru)

Enghreifftiau o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran polisi caffael - [Ofcom](#) ac [Unsain](#)

Dadansoddiad mewnol o brosesau caffael yn y gorffennol

- mae nifer yr ymarferion tendro a gynhelir gan OGCC bob blwyddyn yn fach iawn (tua 1/2 y flwyddyn)
- mae'r prosesau caffael hyn yn ymwneud â gwasanaethau y mae angen eu darparu i'r sefydliad yn hytrach na'u bod yn canolbwyntio ar bobl
- ar sail yr ychydig ymarferion caffael diwethaf, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y math o gyflenwyr y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn eu denu fel arfer yn dod o Gymru.

Rydym yn defnyddio cyflenwyr lleol lle bo hynny'n bosib ac yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi defnyddio cwmnïau annibynnol bach ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer ein gwasanaeth cwnsela, glanhau swyddfa, arlwy, llogi ceir a deunydd ysgrifennu. Rydym hefyd yn defnyddio cwmni annibynnol fel ein hadolygydd allanol ac rydym wedi symud yn ystod y 12 mis diwethaf i ddefnyddio 2 gyflenwr annibynnol bach o Gymru ar gyfer ein gwasanaethau rheoli ac adolygu adeiladau yn hytrach na chwmmi mawr ledled y DU. Mae cyflenwyr annibynnol yng Nghymru hefyd yn darparu ein gwasanaeth monitro gwleidyddol a dylunio allanol.

Gwerthuso adnodd asesu cydraddoldeb wrth gaffael

Roeddem wedi defnyddio'r adnodd yng ngham cynllunio'r gweithgarwch caffael, ac roeddem wedi'i ddefnyddio'n fwy helaeth mewn un ymarfer tendro, gan ychwanegu ychydig o gwestiynau perthnasol ychwanegol yn y ddogfen dendro.

Cofnodwch unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd

Dyddiad / Pwy / Tystiolaeth a gasglwyd

Adroddiad canlyniadau

Cam Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i gwblhau	<input checked="" type="checkbox"/>	Sgrinio cychwynnol
	<input checked="" type="checkbox"/>	Asesiad llawn
Crynodeb o'r effeithiau negyddol a nodwyd	Canfu'r asesiad effeithiau negyddol posib ar y cyflenwyr sydd ag anghenion mynediad ychwanegol oherwydd anabledd. Er nad oes llawer y gellir ei wneud i wella hygyrchedd ein proses gaffael ymhellach, nodir un cam ychwanegol isod.	
Penderfyniad	<input type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – dim newidiadau
	<input checked="" type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – angen gweithredu
	<input type="checkbox"/>	Peidio â bwrw ymlaen
Cynllun Gweithredu	Ychwanegu'r nodyn canlynol yn y templed tendro 'Rhowch wybod i ni os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch i gymryd rhan yn ein proses gaffael. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddiwallu eich	

	anghenion' [newid a wnaethpwyd yn y drafft a gyflwynwyd i'r Tîm Rheoli i'w gymeradwyo]	
	Awdurdodwyd gan	Dyddiad
	MT	08/11/2022